



Cofnodion Cyfarfod 05-11-19 – 7.30pm

Presennol Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase, Geraint Owen, Austin Roberts, Gwilym Williams, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc)

Ymddiheuriadau Cynghorydd Gwenan Roberts.

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/10/19).

Cynigwyd cofnodion 01/10/19 yn gywir gan Cyng Austin ac eiliwyd gan Cyng Phyllis.

Newid i'r cofnodion – Ffens Y Plas wrth Afon Hiraethlyn - Cyng Austin i drafod efo'r perchennog nid CBSC.

5. **MATERION YN CODI**

- **Arwydd Dehongli:**

Y Clerc wedi holi Ela Fôn Williams, Swyddog Cymuned, Treftadaeth a Diwylliant CBSC am y cwmni sydd wedi dylunio'r arwydd. Ela am holi ymhellach.

- **Llwybyr Chwarel y Nant:**

Y Cadeirydd angen cyngor cyfreithiol i lenwi'r ffurflen. Cyng Austin i holi CBSC am gyngor cyfreithiol.

- **Mandad Banc:**

Cynghorwyr Ceri a Geraint i fynd i Banc HSBC Llandudno gyda'u pasbort a trwydded gyrru i lenwi'r mandad.

- **Archebu Halen:**

Cafwyd trafodaeth. Nid oes angen archebu halen.

- **Coed Onnen:**

Cafwyd trafodaeth.

- **Toiledau:**

Y cler c i edrych os ydy'r arian gan CBSC wedi ei dderbyn.

6. CYNLLUNIO

- 0/46805 - Mrs Harriet Geddes
Creu cwrt tennis llawr caled a chodi ffens o'i amgylch
Bodnant Road, Eglwysbach LL28 5RF

Gwrthwynebiad oherwydd y pwyntiau canlynol. Cyng Austin ddim wedi cymryd rhan yn y drafodaeth:

- Pryderon ynghylch y glaswellt artiffisial a'i oes sut y bydd yn cael ei waredu;
 - Peli tenis yn cael eu taro i'r ffordd;
 - Problemau draenio pan fydd yn ddarn mawr o arwyneb caled nid glaswellt;
 - Y pellter o'r tŷ i'r cwrt tennis - dim palmant ac ar briffordd - materion diogelwch;
 - Bydd yn rhaid ehangu'r fynedfa i gwblhau gwaith;
 - Ddim yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos;
 - Amhriodol ar gae amaethyddol;
 - Cwrt tennis eisoes ar safle'r ysgol (Ysgol Eglwys Bach).
- 0/45665 Mrs Eirian Davies
Annedd masnach wledig arfaethedig a gosod tanc trin dŵr - Tir yn Penisa'r
Waen, Ffordd Gyffyllog
Apêl Cynllunio.

Cafwyd trafodaeth.

7. ADRODDIAD ARIANNOL

Cyfredol - £7,000

Angladdau - £350.00

Cadw - £2,075.02

Sieciau:

Cyfredol:

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £122.50
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Neuadd Aberconwy (Hirio'r Neuadd) - £72.00
- Apêl Pabi Y Llent Brau Frenhinol (Torchen) - £45.00

Angladdau:

- Wil Williams (torri glaswellt) - £345.00

8. GOHEBIAETH

- E-Bost: CVSC - Cais am gyllid ar gyfer 'Chwarae Allan' - Darpariaeth Chwarae Gwyliau Haf 2020.

Y Clerc i gysylltu gyda'r ysgol i weld os oes diddordeb a gyrru llythyr allan i rieni.

- E-Bost: CBSC - Gwobrau Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Conwy 2019:

Y Cadeirydd methu mynychu.

- E-Bost: Machines Room – Gweithdy Symudol:

Y Cynghorwyr eisiau rhagor o wybodaeth – oes cost, pa fath o bethau sydd ar gael ayyb.

- E-Bost: Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru - Adolygiad Blynyddol Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru - Holiadur ar gyfer Partneriaid:

Cafwyd trafodaeth. Y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Cymuned.

- E-Bost: CBSC – Yn dilyn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Gwasanaethau mewn perygl.

Cafwyd trafodaeth. Y toiledau a'r cae chwarae sydd yn ein effeithio. Mae tri dewis – ariannu ein hunain, rhoi arian i CBSC neu eu colli. Y Cadeirydd a Cyng Ceri i gyfarfod gyda Haf Jones, Gwasanaeth Gweldig yn Glasdir.

Dywedodd Cyng Phyllis bod dim arwydd yn y pentref i ddweud bod toiledau yma. Cyng Austin i holi CBSC am arwydd yn Ffordd Bryn Fran.

- Llythyr Diolch – Guto Bebb AS.

Nodwyd y llythyr.

9. UNRHYW FATER ARALL

- Cinio Nadolig y Cyngor - 26 Tachwedd – 7.30 o'r gloch. Y Clerc i holi'r Bee neu Tal y Cafn am nosweithiau posib.



- Arwydd '20' wrth yr ysgol - Cyng Austin wedi cael gair – mynd i gymryd amser.
- Ffens Y Plas wrth yr Afon Hiraethlyn - heb ei dynnu i lawr. Cyng Austin wedi trafod gyda'r perchennog, ddim am ei dynnu i lawr. Y perchennog am glirio'r cerrig yn y Gwanwyn.
- Polyn lamp rhif 4 yn Heol Ffynnon Asa wedi symud – y Clerc wedi cysylltu gyda Len Jackson CBSC.
- Angen drych wrth Hen Efail oherwydd ei bod hi'n hanodd gweld wrth ymuno a'r ffordd - Cyng Austin wedi son, ond polisi CBSC rwan ydy ddim i roi drychau i fyny.
- Gridiau ar hyd y lon yn llawn cerrig – Cyng Austin i holi CBSC.
- Llythyr o ddiolch i'r grwp a wnaeth y petitiwn ynglyn â cau y parcio a teithio. Cyng Ceri i yrru gwybodaeth i'r Clerc i ymateb.
- Cwyn ynglyn â cwn yn baeddu tu ôl i'r neuadd. Mae perchnogion cwn wedi bod y gadael cwn heb dennyn yn y fynwent. Mae CBSC wedi bod allan gyda arwyddion. Y Cadeirydd i gysylltu a CBSC am fwy o arwyddion. Cyng John i ofyn i Wil drwsio y giat bach yn y top.
- Trafodaeth am ostwng y fanner. Penderfynwyd bod wythnos yn ddigon o amser.
- Angen gwaith ar y Hysbysfwrdd. Cyng Ceri i ofyn i Russell am bris a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.
- Cwyn am ddail yn y dwr ger Bryn Hir – nid ochr y llwybr. Cyfrifoldeb perchnogion y tai. Cyng Austin i holi CBSC.
- Pibell wedi'i blocio Ffordd Bryn Hir - Cyng Austin in holi CBSC.
- Angen arwydd plant yn chwarae – plant yn chwarae ymhob man a lawr Heol Martin a Maes Llan. Cyng Austin i holi CBSC.
- Coed yn tyfu ar Allt Rhiw.
- Y Cadeirydd i anfon cerdyn o gydymdeimlad ar ran y Cyngor Cymuned i Mrs Sue Hayward ar ei phrofedigaeth.
- Ffordd Bodnant – dwr yn hel ar y chwith wrth fynd i'r pentref.
- Coeden nadolig y pentref – Cyng Arthur am holi.

10. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

03/12/19.



Daeth y cyfarfod i ben am am 9.00 o'r gloch.